# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO | | PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD MAWRTH, 14 TACHWEDD 2017 am 2.00 o'r gloch yp | | TUESDAY, 14 NOVEMBER, 2017 at 2.00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Mrs. Mairwen Hughes 01248 751516 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O. Jones **(Cadeirydd/Chair),** Dafydd Roberts

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Vaughan Hughes, Alun Roberts, Margaret M. Roberts, Nicola Roberts, Robin Williams

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Eric Jones, R.Ll.Jones **(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)**

**Plaid Lafur Cymru/Wales Labour Party**

Glyn Haynes

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Ms. Anest Gray Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales) and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

# R H A G L E N

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno, i’w cadarnhau, cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 9 Hydref, 2017.

4 **DIWEDDARIAD YNGLYN A'R CYNLLUN GWELLIANT - BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS YNYS MÔN A GWYNEDD** (Tudalennau 9 - 12)

Cyflwyno adroddiad gan  Reolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd mewn perthynas â’r uchod.

5 **ADRODDIAD CYNNYDD AR Y DEFNYDD O'R GYMRAEG O FEWN Y WEINYDDIAETH FEWNOL** (Tudalennau 13 - 20)

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau) mewn perthynas â’r uchod.

6 **PANEL SGRIWTINI - ADOLYGU CYNNYDD YSGOLION** (Tudalennau 21 - 30)

Cyflwyno adroddiad cynnydd gan Gadeirydd y Panel Sgriwtini – Adolygu Cynnydd Ysgolion a Swyddogion Cefnogol.

7 **RHAGLEN WAITH** (Tudalennau 31 - 34)

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini.

8 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 35 - 36)

Ystyried mabwysiadu’r canlynol :-

**“O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a’r cyhoedd o’r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y’i diffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1 o Atodlen 12A i’r Ddeddf honno a’r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.”**

9 **TRAWSNEWID DIWYLLIANT - ORIEL YNYS MÔN** (Tudalennau 37 - 78)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu mewn perthynas â’r uchod.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Hydref 2017

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Vaughan Hughes, Eric Wyn Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Margaret Murley Roberts, Nicola Roberts a Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Y Gymuned a Gwella Gwasanaeth),<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai (yng nghyswllt Eitem 6),<br>Rheolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn (yng nghyswllt Eitem 4),<br>Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Ynys Môn a Gwynedd) (yng nghyswllt Eitem 5),<br>Rheolwr Gwasanaeth – Tai Cymunedol (yng nghyswllt Eitem 6),<br>Swyddog Sgriwtini (GR),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Ms. Anest Gray Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru) a Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig) – Aelodau Cyfetholedig<br><br>Arweinydd y Cyngor – Y Cynghorydd Llinos M. Huws,<br>Aelod Portffolio (Tai a Chefnogaeth Gymunedol) – Y Cynghorydd Alun Mummery. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |

---

Dymunodd y Cadeirydd wellhad buan i ŵr y Cynghorydd Margaret M. Roberts a fu yn yr ysbyty'n ddiweddar.

**1 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodir uchod.

**2 DATGAN DIDDORDEB**

Heb dderbyn yr un datganiad.

**3 COFNODION**

Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mehefin, 2017 yn gywir.

## 4 PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Rheolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn a oedd yn rhoi trosolwg o weithgareddau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (PDC) Ynys Môn a Gwynedd.

Adroddodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Y Gymuned a Gwella Gwasanaeth fod gofyn i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol gyflwyno trosolwg o'i gweithgareddau i'r Pwyllgor hwn yn flynyddol. Mae hyn yn sicrhau bod y Bartneriaeth yn cyflawni ei hymrwymiadau yn unol ag Adrannau 19 a 20 y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2006. Mae dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol yn unol â Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, a diwygiadau dilynol yn sgil Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2002 a 2006, i weithio mewn partneriaeth gyda'r Heddlu, y Gwasanaeth Iechyd, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Tân ac Achub, i roi sylw i'r agenda diogelwch cymunedol yn lleol. Mae gan y Bartneriaeth ddyletswydd i ddelio gyda:-

- Throsedd ac Anhrefn
- Camddefnyddio Sylweddau
- Lleihau aildroseddu
- Cyflawni asesiad strategol i adnabod blaenoriaethau (gwaith sydd bellach yn cael ei wneud yn rhanbarthol)
- Rhoi cynlluniau mewn lle i ymdrin â'r blaenoriaethau hyn (mae cynllun nawr yn bodoli ar sail ranbarthol a lleol)

Adroddodd y Rheolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn fod y Bartneriaeth wedi bodoli ar Ynys Môn ac yng Ngwynedd ers 1998 ond bod Partneriaeth ar y cyd wedi bod yn weithredol am y pum mlynedd diwethaf. Mae'r bartneriaeth yn gweithio yn unol â Chynllun Blynyddol, sy'n seiliedig ar gynllun tair blynedd rhanbarthol. Mae adroddiad perfformiad diwedd blwyddyn 2016/17, Cynllun Blynyddol 2017/18 a chynllun gwariant 2017/18 ynghlwm fel Atodiadau 1, 2 a 3 i'r adroddiad. Bydd y Bartneriaeth yn canolbwyntio ar y saith blaenoriaeth a ganlyn ar gyfer 2016/17 a 2017/18 :-

- Lleihau troseddu sy'n seiliedig ar ddioddefwyr (troseddau meddiangar yn unig)
- Lleihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Cefnogi pobl fregus i'w hatal rhag bod yn ddioddefwyr trosedd
- Codi hyder i adrodd am ddigwyddiadau o gam-drin domestig
- Codi hyder i adrodd am gam-drin rhywiol
- Mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn yr ardal
- Lleihau Aildroseddu

Roedd y prif negeseuon a oedd yn deillio o weithgareddau'r Bartneriaeth ar gyfer 2016/17 wedi'u cynnwys ar Dudalen 11 a 12 yr adroddiad.

Roedd y Swyddog yn dymuno diwygio'r adroddiad oedd o flaen y Pwyllgor mewn perthynas â'r ddarpariaeth grant gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd tuag at Adolygiadau Dynladdiad Domestig oherwydd roedd yr adroddiad yn nodi bod y

cyllid yn dod i ben. Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi datgan y bydd y cyllid grant bellach yn parhau tan y flwyddyn ariannol nesaf ar gyfer y prosiect hwn. Nododd ymhellach fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnal adolygiad o Ddiogelwch Cymunedol trwy Gymru ac yn wyneb canfyddiadau'r adolygiad, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu adolygiad manwl pellach ac hefyd wedi sefydlu Bwrdd i arwain ar y gwaith a wneir. Disgwylir canlyniadau'r adolygiad ar ddiwedd y flwyddyn hon a disgwylir y bydd newidiadau pellach yn cael eu gwneud i'r ffordd y mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn gweithredu.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad a chododd y prif faterion a ganlyn:-

- Gofynnwyd am eglurder ynghylch y cynnydd yn nifer y bobl sy'n adrodd am droseddau treisgar domestig a rhywiol a holwyd a oedd y cynnydd hwn oherwydd bod gwell cefnogaeth a gwybodaeth bellach ar gael i gefnogi dioddefwyr. Ymatebodd y Rheolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol fod Awdurdod yr Heddlu wedi bod yn destun adolygiad archwilio gan Arolygwyr EM a oedd yn ymchwilio i sut mae'r Heddlu yng Nghymru a Lloegr yn adrodd am ddigwyddiadau o drais domestig a rhywiol. Mae canfyddiadau Arolygwyr EM o'r adolygiad ar Heddlu Gogledd Cymru wedi nodi bod angen cryfhau'r elfen adrodd am drais domestig a rhywiol ac wedi hynny daeth i'r amlwg fod nifer uwch o droseddau o'r fath wedi cael eu hadrodd yn ddiweddar. Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Y Gymuned a Gwella Gwasanaeth) y bydd hyfforddiant ar drais domestig yn statudol i holl aelodau staff y Cyngor trwy'r porth E-ddysgu;
- Cyfeiriwyd at y Diwrnod Rhuban Gwyn Rhyngwladol blynyddol a gaiff ei gynnal ar 25 Tachwedd i godi ymwybyddiaeth o gamdriniaeth ddomestig ymysg y cyhoedd. Cynhaliwyd ymgyrch lwyddiannus yn Ysbyty Gwynedd y llynedd;
- Cyfeiriwyd at ddatganiad yn yr adroddiad bod nifer y digwyddiadau o droseddu gan bobl ifanc o dan 17 mlwydd oed wedi gostwng; holwyd a oedd hyn o ganlyniad i'r ffaith fod yr heddlu ac asiantaethau eraill wedi ymweld ag ysgolion i godi ymwybyddiaeth am droseddu ymysg pobl ifanc. Ymatebodd y Rheolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol fod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu asiantaethau perthnasol i fynd i bob ysgol i godi ymwybyddiaeth am wahanol gategorïau o droseddu. Nododd fod trais rywiol tuag at bobl ifanc ar gynnydd ac mae llawer o waith wedi'i dargedu yn y maes hwn gan wahanol asiantaethau. Nodwyd hefyd y gwelwyd cynnydd mewn achosion o blant ifanc sy'n troseddu yn erbyn plant o'r un oedran.
- Holwyd a oedd cyfleusterau mewn lle i amddiffyn pobl hŷn rhag 'sgams' naill ai trwy'r cyfryngau cymdeithasol neu trwy'r post. Ymatebodd y Rheolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol fod Adran Safonau Masnach y Cyngor Sir ac Age Cymru wedi cynnal ymgyrch yn ddiweddar i godi ymwybyddiaeth am ddeunyddiau twyllodrus posib;
- Cyfeiriwyd at grant cyfalaf gan Lywodraeth Cymru tuag at wella'r adeilad yng Nghaergybi sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ar hyn o bryd. Dywedodd y Rheolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol y bydd y grant yn fodd i wella'r eiddo yn William Street, Caergybi sy'n cynnig cymorth ac arweiniad i bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau yn y ganolfan;
- Cyfeiriwyd at y posibilrwydd fod troseddwyr yn camfanteisio'n rhywiol ar bobl ifanc yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a holwyd cwestiynau a oedd modd cael gafael ar unrhyw adnodd i amddiffyn y bobl ifanc hyn rhag pornograffi a

chamfanteisio. Ymatebodd y Rheolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol fod llawer iawn o wybodaeth ac arweiniad ar gael i rieni ond mae'n faes cymhleth i geisio atal pobl ifanc rhag cael mynediad at y fath ddeunydd ar y rhyngrwyd.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r adroddiad a'r dogfennau sydd ynghlwm;**

- **Cefnogi blaenoriaethau a chyfeiriad gwaith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn y dyfodol.**

**CAM GWEITHREDU: Fel y nodir uchod.**

**5 Y BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS**

Cyflwynwyd – adroddiad gan Reolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd Rheolwr Rhaglen y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn wedi cael ei sefydlu yn unol â gofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Cytunwyd y byddai'r bwrdd yn cydweithio â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac mae'n bartneriaeth sy'n cynnwys y prif sefydliadau o'r sector cyhoeddus ar draws y ddwy sir. Prif ffocws y gwaith gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cyd rhwng mis Ebrill 2016 a Mai 2017 oedd cynhyrchu Asesiad Llesiant ar gyfer y ddwy sir. Bydd y gwaith hwn yn arwain at gynhyrchu Cynllun Llesiant a gaiff ei gyhoeddi ym mis Mai 2018. Fe wnaed yr ymgynghoriad cyntaf yn yr hydref 2016 ac fe drefnwyd nifer o weithgareddau fel y nodir yn yr adroddiad.

Cyflwynwyd Asesiad Llesiant drafft i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ym mis Ionawr 2017 ac i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mawrth 2017 ac mae gwaith wedi cychwyn nawr i baratoi at gyhoeddi'r Cynllun Llesiant. Trefnwyd gweithdai yn ystod mis Awst 2017 gyda swyddogion o nifer o wahanol sefydliadau ac asiantaethau yn mynychu. Bydd cyfnod ymgynghori statudol am 12 wythnos ar y Cynllun Llesiant drafft a chaiff ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ar 14 Tachwedd 2017 i'w ystyried.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad a chododd y prif faterion a ganlyn:-

- Ceisiwyd eglurder ynghylch a oedd tystiolaeth i ddangos bod yr holl sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i gynhyrchu asesiad o lesiant yn lleol ar gyfer ardal Ynys Môn. Ymatebodd y Rheolwr Rhaglen gan ddweud bod Is-grŵp Llesiant wedi'i sefydlu i arwain y gwaith o gynhyrchu'r asesiad ac roedd pob aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi sicrhau bod swyddogion o'u sefydliad yn mynychu'r is-grŵp. Bu'r aelodau'n cydweithio ar gasglu'r data angenrheidiol ar gyfer yr asesiad. Nododd fod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn wedi rhannu'r rhanbarth yn 14 o ardaloedd llai yn hytrach na defnyddio ardal ranbarthol, gyda 6 o'r ardaloedd hynny ar Ynys Môn ac 8 yng Ngwynedd;

- Ceisiwyd eglurder ynghylch a oedd y data a gasglwyd yn dangos gwahaniaethau mawr rhwng gwahanol rannau o'r Ynys. Atebodd y Rheolwr Rhaglen na welwyd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol ar draws yr ardal dan sylw mewn perthynas â'r cwestiynau a ofynnwyd i'r trigolion. Fodd bynnag, rhoddodd enghraifft gan nodi dros y 30 blynedd diwethaf, fod wardiau Aethwy a Seiriol wedi gweld cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n symud i mewn i'r ardal. Dywedodd yr Aelodau fod Ysgol Gynradd Llandegfan wedi gweld cynnydd yn y disgyblion a dderbynnir i'r ysgol sy'n siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf;
- Holwyd a oedd y trigolion wedi mynegi pryderon ynglŷn â'r diffyg cyfleusterau toiled ar yr ynys. Atebodd y Rheolwr Rhaglen fod yr ymatebion i weld yn canolbwyntio ar y cyfleusterau sydd ar gael yng nghymunedau'r trigolion a sut ganfyddiad sydd o'u canol trefi;
- Ceisiwyd eglurder ynghylch y gost a'r manteision o gydweithio â Chyngor Gwynedd trwy gyfrwng y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Dywedodd y Prif Weithredwr fod nifer o fanteision i gydweithio ar brosiectau rhwng awdurdodau cyfagos ac yn enwedig yng nghyswllt y gofyn am arbenigedd mewn deddfwriaeth statudol benodol sy'n cael ei gorfodi gan Lywodraeth Cymru. Nododd ymhellach fod arbedion effeithlonrwydd rhwng y ddau awdurdod cyfagos yn fantais hefyd gan fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi gofynion statudol ar bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â chynhyrchu a chyhoeddi'r Asesiad Llesiant Lleol a'r gwaith o baratoi'r Cynllun Llesiant;**
- **Derbyn diweddariadau pellach gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus tra bod y Cynllun Llesiant yn cael ei ddatblygu.**

**CAM GWEITHREDU: Fel y nodir uchod.**

## 6 STRATEGAETH CYFRANOGIAD TENANTIAID TAI – ADRODDIAD CYNNYDD

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd y Rheolwr Gwasanaeth – Tai Cymunedol y cafodd y Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid ei chyflwyno gyntaf ar Ynys Môn yn 1998 ac mae'n rhoi'r cyfle i denantiaid a phrydleswyr gael dweud eu dweud ar sut mae eu cartref yn cael ei reoli. Fel landlord cymdeithasol yng Nghymru, mae gofyn i Gyngor Sir Ynys Môn roi pob hawl i denantiaid gyfranogi ac mae gofyn iddo hyrwyddo rhagoriaeth yn y maes cyfranogiad tenantiaid er mwyn cydymffurfio â Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Cenedlaethol Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2007. Nododd mai Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid 2015 – 2018 yr Awdurdod yw'r trydydd strategaeth o'r fath ar gyfer y Gwasanaeth Tai. Nod y Strategaeth yw ymgynghori â'r tenantiaid a'u cynnwys yn y gwasanaeth. Adroddodd y Rheolwr Gwasanaeth am y prif lwyddiannau yn ystod 2016 – 2017 fel roeddynt wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad a chododd y prif faterion a ganlyn:-

- Ceisiwyd eglurder ynghylch yr effaith bosib ar bobl sydd ar incwm isel yn sgil y newidiadau i'r system fudd-daliadau wrth i'r system Credyd Cynhwysol newydd ddod i rym. Ymatebodd y Rheolwr Gwasanaeth – Tai Cymunedol fod pryderon difrifol yn cael eu mynegi oherwydd yr effaith ar y bobl fwyaf bregus mewn cymdeithas yn sgil y system Credyd Cynhwysol, a'r posibilrwydd y bydd teuluoedd ifanc heb arian i dalu am bethau sylfaenol hanfodol gan y bydd rhaid iddynt aros am nifer o wythnosau i'r taliad Credyd Cynhwysol gael ei weinyddu. Nododd y bydd banciau bwyd dan bwysau eithriadol ar ôl i'r Credyd Cynhwysol gychwyn ac mae ymgyrch 'Dewch â Thun' wedi cael ei lansio ymysg gweithwyr y sector cyhoeddus i gyfrannu at fanciau bwyd lleol;
- Mynegwyd pryderon na fyddai'r tenantiaid yn gallu talu eu rhent pan fyddent yn disgwyl am eu budd-daliadau trwy'r system Credyd Cynhwysol newydd; mynegwyd na ddylai pobl fod mewn perygl o golli eu cartref. Ymatebodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai y bydd y Cyngor yn gefnogol i denantiaid sy'n aros am eu taliadau Credyd Cynhwysol cyn iddo gymryd unrhyw gamau trwy'r llys i adfeddiannu eiddo'r awdurdod lleol. Nododd y bydd tenantiaethau preifat a phobl sy'n hunangyflogedig hefyd yn cael eu heffeithio yn sgil cyflwyno'r system Credyd Cynhwysol;
- Cyfeiriodd yr aelodau at ymgyrch y Gwasanaeth Tai sef y 'dyddiau glanhau stad' yn stadau tai yr awdurdod lleol yn ddiweddar. Ymatebodd y Rheolwr Gwasanaeth – Tai Cymunedol fod 22 o ddyddiau glanhau stad wedi digwydd yn ystod 2016/17 ac roedd y rhain yn cynnwys stadau yn Llangefni, Caergybi, Moelfre, Llanfairpwll, Aberffraw, Niwbwrch, Pentraeth, Llanddeusant, Llansadwrn, Benllech a Chemaes;
- Ceisiwyd eglurder ynghylch y berthynas waith gyda Heddlu Gogledd Cymru yng nghyswllt ymddygiad gwrthgymdeithasol ar stadau tai. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth – Tai Cymunedol fod perthynas waith dda yn bodoli gydag Awdurdod yr Heddlu ac y cynhelir cyfarfodydd misol gydag Arolygydd yr Ynys i rannu gwybodaeth am ddigwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol ar y stadau tai. Nododd ymhellach fod y Swyddogion Cefnogi'r Heddlu yn lleol yn gweithio gyda'r bobl ifanc ar stadau tai i yrru mentrau cymunedol ymlaen i geisio gostwng digwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- Cyfeiriwyd at y Grŵp Llais Tenantiaid a Swyddogion Môn (MTOV) a holwyd cwestiynau am lwyddiant y Grŵp hwn. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth – Tai Cymunedol fod Grŵp Llais Tenantiaid a Swyddogion Môn yn parhau i gyfarfod bob chwarter a'i fod yn cynnwys tenantiaid o bob cwr o'r Ynys. Nododd fod nifer o'r rhai sy'n cynrychioli tenantiaid yn byw yn ardal Caergybi ac ystyriodd fod angen rhoi sylw i gynyddu'r gynrychiolaeth gan denantiaid o ardaloedd eraill;
- Cyfeiriwyd at yr 'Hybiau Cymunedol' sydd i'w gweld trwy gynlluniau tai gwarchod ar yr Ynys a holodd yr aelodau ynghylch llwyddiant y fath fenter. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth – Tai Cymunedol fod y 22 o lolfeydd cymunedol yn cael eu defnyddio bron yn ddyddiol a bod y tenantiaid yn eu gweld fel canolfan ragorol ar gyfer ffurfio hybiau cymunedol.

Awgrymodd y Prif Weithredwr y dylid anfon yr adroddiad hwn ymlaen i'r sesiynau briffio misol ar gyfer Aelodau Etholedig fel bod Aelodau'n cael y cyfle i fod yn ymwybodol o'r gwaith a wneir gan y Gwasanaeth Tai.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Derbyn yr adroddiad cynnydd ar gyfer 2016/17 a diolch i'r Swyddogion am eu gwaith;**
- **Bod yr Aelodau Etholedig a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn chwarae rôl ragweithiol ar gyfer hyrwyddo cyfranogiad tenantiaid a sicrhau bod gan yr holl denantiaid lais a rhan i'w chwarae mewn datblygiadau tai a chorfforaethol yn y dyfodol.**

**CAM GWEITHREDU: Fel y nodir uchod.**

## 7 RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Sgriwtini ar Raglen Waith y Pwyllgor hyd at fis Mai 2018.

Adroddwyd y bydd Arsyllwr o Swyddfa Archwilio Cymru yn mynychu'r cyfarfod ar 14 Tachwedd, 2017 i werthuso proses sgriwtini yr Awdurdod.

**PENDERFYNWYD nodi'r Rhaglen Waith hyd at fis Mai 2018.**

**CAM GWEITHREDU: Dim**

Daeth y cyfarfod i ben am 3. 50 p.m.

**Y CYNGHORYDD G.O. JONES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
## Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 14 Tachwedd 2017 |
| **Pwnc:** | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | I ddiweddaru'r Pwyllgor ar y gwaith sydd wedi'i wneud gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i lunio Cynllun Llesiant Drafft ar gyfer ardal awdurdod lleol Ynys Môn |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cynghorydd Gwilym O Jones |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Cynghorydd Llinos Medi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Ddim yn berthnasol |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Llio Johnson, Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn<br>01248 752033<br>lliojohnson@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Phob Aelod |

**1 – Argymhelliad(au)**

1. Bod yr aelodau yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud gan y BGC o ran paratoi'r Cynllun Llesiant Drafft ar gyfer ardal awdurdod lleol Ynys Môn
2. Bod yr aelodau yn cytuno i dderbyn diweddariadau pellach gan y BGC tra bod y Cynllun Llesiant yn cael ei ddatblygu.

**2 - Cysylltiad i Gynllun Corfforaethol / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall**

**3 – Egwyddorion Arweiniol ar gyfer Sgriwtini**

**Bydd yr egwyddorion canlynol yn cynorthwyo Aelodau i graffu'r pwnc hwn:**

**3.1** **Y cwsmer/dinesydd** [edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt pobl leol]

**3.2** **Gwerth** [ystyried a yw cynlluniau a chynigion yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol. Yn ogystal, edrych ar y gofynion ehangach o safbwynt gwerth cymdeithasol]

**3.3** **Risg** [edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt gwytnwch. Mae'n ymwneud a'r trosglwyddiad o wasanaeth traddodiadol i wasanaeth wedi ei drawsnewid, ac â chadernid y gwasanaeth ar ei newydd wedd unwaith y mae wedi ei cael sefydlu]

**3.4** **Canolbwyntio ar y system (gan gynnwys datblygiad sefydliadol)** [Sicrhau bod gan y Cyngor a'i bartneriaid y systemau perthnasol i sicrhau y gallant gyflawni trawsnewid yn llyfn, yn effeithlon a heb i hynny gan effaith negyddol ar y modd y darperir gwasanaethau]

**3.5** **Canolbwyntio ar berfformiad ac ansawdd** [Sgriwtini'n ymgymryd â rôl monitro perfformiad neu sicrwydd ansawdd, ar sail eithriad]

**3.6** **Canolbwyntio ar Lesiant** [edrych ar gynigion o safbwynt gofynion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol]

| 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol |
|---|
| Oes tystiolaeth fod y sefydliadau sydd yn aelodau o'r BGC yn cyd-weithio yn effeithiol i gynhyrchu Cynllun Llesiant ar gyfer ardal awdurdod lleol Ynys Môn? |

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn yn unol â gofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Cytunwyd i gyd-weithio â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd er mwyn gallu sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl tuag at gyflawni ar ran trigolion Ynys Môn a Gwynedd.

Mae aelodaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn (BGC) yn ymateb i'r gofynion - mae aelodau statudol, rhai sydd yn rhaid eu gwahodd a phartneriaid eraill. Yn 2017 Cadeirydd y BGC yw Ffion Johnstone, Cyfarwyddwr Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'r BGC yn cyfarfod yn chwarterol gyda gweithdai ychwanegol wedi'u trefnu yn ystod 2017 er mwyn llunio'r Cynllun Llesiant.

Cyhoeddwyd Asesiad o Lesiant Lleol ar ran y BGC ar gyfer ardal awdurdod lleol Ynys Môn ym mis Mai 2017.

Mae'r BGC bellach yn gweithio ar lunio Cynllun Llesiant gyda thrafodaethau yn parhau o ran gosod amcanion clir ar gyfer gwaith y Bwrdd i'r dyfodol.

Mae 9 prif neges o fewn yr Asesiad o Lesiant lleol;

- Yr angen i gynnal ysbryd cymunedol iach sydd mor bwysig i lesiant
- Pwysigrwydd gwarchod yr amgylchedd naturiol
- Deall effaith y newidiadau yn nemograffeg ein hardaloedd
- Gwarchod a hyrwyddo'r Iaith Gymraeg
- Hybu defnydd adnoddau naturiol i wella iechyd a llesiant yn yr hir dymor
- Gwella cysylltiadau trafnidiaeth i alluogi mynediad at wasanaethau a chyfleusterau
- Yr angen am swyddi o safon uchel a chartrefi fforddiadwy i bobl leol
- Effaith tlodi ar lesiant
- Sicrhau cyfle i bob plentyn i lwyddo

Gweithredu o ran gosod amcanion ar gyfer y Bwrdd:

- Cynhaliwyd 18 o weithdai yn ystod yr haf yn trafod y 9 neges gydag ystod eang o swyddogion o fewn y cyrff cyhoeddus, swyddogion y trydydd sector, aelodau cynghorau cymuned a grwpiau cymunedol
- Yn y cyfarfodydd yma gofynnwyd i'r swyddogion gysidro dylanwad y Bwrdd ym mhob maes a sut all y Bwrdd gyd-weithio i wneud gwahaniaeth go iawn i drigolion Ynys Môn a Gwynedd.
- Gofynnwyd hefyd i'r swyddogion gysidro dylanwad eu cyrff unigol yn y maes a pha weithredu sydd yn digwydd yn barod a all fod yn fwy effeithiol drwy gyd-weithio gwell

- Yn dilyn y gweithdai yma bu i ni gyd-weithio gyda myfyriwr PhD ym Mhrifysgol Bangor i ddadansoddi'r sylwadau trwy ddefnyddio meddalwedd penodol i greu crynodeb ar gyfer y Bwrdd.
- Roedd y sylwadau a chynigion ar gyfer gweithredu i'r dyfodol yn cynnwys yr angen i gyd-weithio gyda chymunedau i ddatblygu a chynnal cymunedau cryf a llewyrchus; yr angen i rannu gwybodaeth am weithredu yn ein cymunedau yn fwy effeithiol; cyd-gynllunio a chyd-leoli gwasanaethau ar gyfer trigolion bregus; hyrwyddo'r defnydd o'r Iaith Gymraeg.

Mae dau gyfarfod o'r Bwrdd wedi eu cynnal ym mis Hydref a mis Tachwedd ac mae trafodaethau yn parhau er mwyn cytuno ar amcanion llesiant ar gyfer y Bwrdd.

Mae'r cyfarfodydd wedi bod yn heriol ac mae cytundeb wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl ac felly mae llithriant oddeutu 4 wythnos o ran amserlen cyhoeddi Cynllun Llesiant Drafft ar gyfer ymgynghoriad statudol. Mae hyn yn adlweyrchu yr her o weithio yn bartneriaethol ond hefyd yn adlewyrchu ymroddiad aelodau'r Bwrdd i gynhyrchu Cynllun cyraeddadwy lle mae gwir gytundeb ar y cynnwys.

Er mwyn ymateb i'r amserlen o fewn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol bydd yn rhaid cyhoeddi Cynllun Llesiant Drafft ganol mis Rhagfyr 2017. Bydd cyfnod o 12 wythnos o ymgynghoriad statudol lle byddwn yn hyrwyddo'r ymgynghoriad ar-lein; yn cynnal gweithdai ar gyfer swyddogion cyrff cyhoeddus a hefyd yn ymweld â grwpiau cymunedol i ganfod eu barn.

Mae'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn un o'r ymgynghorai statudol ac fe fyddwn yn cyflwyno'r Cynllun Llesiant Drafft i'r pwyllgor yn ystod y cyfnod o ymgynghori statudol.

**6 – Asesiad  Effaith ar Gydraddoldeb**

**7 – Goblygiadau Ariannol**

**8 – Atodiadau**

**9 - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

Gellir gweld yr Asesiad o Lesiant Lleol a'r llyfrynnau ardal ar y wefan

www.llesiantgwyneddamon.org.

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**<u>Templed Adroddiad Sgriwtini</u>** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 14 Tachwedd, 2017 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Cynnydd ar y Defnydd o'r Gymraeg o fewn y Weinyddiaeth Fewnol |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | I geisio cymeradwyaeth ar gynnwys yr adroddiad |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cynghorydd Gwilym O Jones |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cynghorydd Ieuan Williams |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Mrs Annwen Morgan, Prif Weithredwr Cynorthwyol |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Mrs Carol Wyn Owen<br>Est. 2561<br>carolwyn@ynysmon,gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Dim yn berthnasol |

| **1 – Argymhelliad/ion** |
|---|
| Gofynnir i aelodau'r pwyllgor dderbyn cynnwys yr adroddiad hwn. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall** |
|---|
| Mae'r maes hwn gyda chysylltiad gyda'r canlynol:<br><br>• Polisi Iaith Gymraeg y Cyngor Sir<br>• Safonau'r Iaith Gymraeg<br>• Darparu gwasanaethau o ansawdd yn dewis iaith y cwsmer yn unol â'r flaenoriaeth gorfforaethol |

| **3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**<br><br>3.1 Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>3.2 Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>3.3 Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br><br>3.4 Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]** |

3.5 Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

- Ym mha ffordd ydych yn gweld y rhaglen dreigl enghraifft o arfer da?
- Oes unrhyw gamau ymarferol pellach y gellid eu hystyried i gynorthwyo staff i gynyddu eu sgiliau cyfrwng Cymraeg?
- Ym mha ffordd ydych yn meddwl y gall y nod hwn wella ein gwasanaeth gofal cwmser yn unol â’n amcanion corfforaethol?
- Ydi’r trefniadau monitro a amlinellir yn yr adroddiad cynnydd yn ddigonol?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

Yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, derbyniodd y Cyngor hwn Hysbysiad Cydymffurfio ar y Safonau Iaith Terfynol ar 30 Medi, 2015. Roedd Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor yn dod i ben o’r dyddiad hwn y daeth y Safonau Iaith i rym. Roedd y Cyngor eisoes wedi bod yn cydymffurfio â nifer sylweddol o’r Safonau a osodwyd arno trwy weithrediad ei Gynllun Iaith ac yn wir roedd y cynllun hwn yn mynd ymhellach na’r Safonau Iaith mewn sawl maes. Ystyriwyd na ddylid gwanhau sefyllfa bresennol y Cyngor o ran yr iaith trwy gyfyngu at gydymffurfio â’r Safonau’n unig ac o ganlyniad, fe ddatblygwyd Polisi Iaith o’r newydd. Mae’r Polisi Iaith hwn yn gyplysiad o’r Cynllun Iaith a’r Safonau y mae’r Cyngor o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. Fe fabwysiadwyd y Polisi Iaith Gymraeg hwn gan y Cyngor Sir ar 12 Mai, 2016.

Wrth fabwysiadu’r Polisi Iaith Gymraeg penderfynwyd yn ogystal, i fabwysiadu’r gwelliant a ganlyn i baragraff 3.2.4 o’r Polisi Iaith Gymraeg:

‘Nod y Cyngor yw sicrhau mai Cymraeg fydd prif iaith gweinyddiaeth fewnol y Cyngor, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Er mwyn cyflawni hyn bydd y cyngor yn monitro cynnydd yn flynyddol trwy gyhoeddi adroddiad arno i’w gyflwyno i’r Pwyllgor Sgriwtini ar yr un pryd â’r adroddiad blynyddol ar weithrediad y Polisi Iaith Gymraeg’.
Ceir ymrwymiad yn ogystal, o fewn Strategaeth Iaith Gymraeg y Sir am y cyfnod 2016-2021 i weithio tuag at sicrhau mai Cymraeg fydd prif iaith weinyddol y Cyngor Sir.
Pwrpas yr adroddiad hwn yw amlinellu'r camau gweithredol a gymerir i gyrraedd y nod uchod.

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Dim yn berthnasol. |

| **7 – Oblygiadau Ariannol** |
|---|
| Dim yn berthnasol. |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Adroddiad Cynnydd ar y Defnydd o’r Gymraeg o fewn y Weinyddiaeth Fewnol |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| |

# ATODIAD

## ADRODDIAD CYNNYDD AR Y GYMRAEG O FEWN Y WEINYDDIAETH FEWNOL

### 1. Cyd-destun Polisi

Yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, derbyniodd y Cyngor hwn Hysbysiad Cydymffurfio ar y Safonau Iaith Terfynol ar 30 Medi, 2015. Roedd Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor yn dod i ben o'r dyddiad hwn y daeth y Safonau Iaith i rym. Roedd y Cyngor eisoes wedi bod yn cydymffurfio â nifer sylweddol o'r Safonau a osodwyd arno trwy weithrediad ei Gynllun Iaith ac yn wir roedd y cynllun hwn yn mynd ymhellach na'r Safonau Iaith mewn sawl maes. Ystyriwyd na ddylid gwanhau sefyllfa bresennol y Cyngor o ran yr iaith trwy gyfyngu at gydymffurfio â'r Safonau'n unig ac o ganlyniad, fe ddatblygwyd Polisi Iaith o'r newydd. Mae'r Polisi Iaith hwn yn gyplysiad o'r Cynllun Iaith a'r Safonau y mae'r Cyngor o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. Fe fabwysiadwyd y Polisi Iaith Gymraeg hwn gan y Cyngor Sir ar 12 Mai, 2016.

Wrth fabwysiadu'r Polisi Iaith Gymraeg penderfynwyd yn ogystal, i fabwysiadu'r gwelliant a ganlyn i baragraff 3.2.4 o'r Polisi Iaith Gymraeg:

'*Nod y Cyngor yw sicrhau mai Cymraeg fydd prif iaith gweinyddiaeth fewnol y Cyngor, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Er mwyn cyflawni hyn bydd y cyngor yn monitro cynnydd yn flynyddol trwy gyhoeddi adroddiad arno i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini ar yr un pryd â'r adroddiad blynyddol ar weithrediad y Polisi Iaith Gymraeg'.*

Ceir ymrwymiad yn ogystal, o fewn Strategaeth Iaith Gymraeg y Sir am y cyfnod 2016-2021 i **weithio tuag** at sicrhau mai Cymraeg fydd prif iaith weinyddol y Cyngor Sir.

Pwrpas yr adroddiad hwn yw amlinellu'r camau gweithredol a gymerir i gyrraedd y nod uchod.

### 2. Cyflawni'r Nod

Mae'r Cyngor Sir wedi mabwysiadu dull graddol bwriadus o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth y Cyngor. Yr ymgais yw parhau i gynnal a grymuso awyrgylch corfforaethol positif sy'n arddel defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng gwaith. Mae hyn yn ei dro yn gosod disgwyliadau clir ar staff bod y Cyngor yn hyrwyddo arfer dwyieithog da.

Mae cyflawni'r nod hwn yn bwysig hefyd o safbwynt gofal cwsmer. Mae'n hanfodol bod gan staff y Cyngor Sir y sgiliau dwyieithog angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau safonol yn dewis iaith y cwsmer yn unol â gofynion y Safonau Iaith.

Er mwyn gweithio tuag at y nod hwn, y bwriad yw gweithio'n ddwys gyda gwasanaethau yn eu tro i sicrhau bod y gefnogaeth angenrheidiol mewn lle i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig. Y nod fydd cael effaith gadarnhaol ar arferion iaith staff yn eu gwaith ac ar lefel gymdeithasol yn y swyddfa. Mae rhaglen dreigl mewn lle i ddarparu cefnogaeth uniongyrchol i wasanaethau, yn eu tro, i gyrraedd y nod.

## 3. Heriadau

Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod bod rhai heriadau i'w cyfarch wrth gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y sefydliad. Mae'r heriadau yn rhai nodweddiadol mewn prosiectau o'r fath.

Yn y lle cyntaf, cydnabyddir bod diffyg hyder, arbenigedd a hyfedr sgiliau yn gallu dylanwadu ar barodrwydd siaradwyr Cymraeg rhugl yn ogystal â dysgwyr i roi cynnig arni i ddefnyddio eu sgiliau iaith yn y gweithle, Yn ogystal, mae arferion defnydd iaith sydd wedi'u sefydlu ers nifer o flynyddoedd yn her i'w newid.

I'r dyfodol, yn ogystal, bydd yn angenrheidiol i'r Cyngor allu denu a recriwtio unigolion dwyieithog efo'r profiad perthnasol. Mae'n gynyddol anodd gyda rhai swyddi proffesiynol megis gwaith cymdeithasol, swyddogion cynllunio, swyddogion safonau masnach a chyfreithwyr.

## 4. Camau Gweithredol

Gweler isod y camau gweithredol y bwriedir eu cymryd er mwyn cyrraedd y nod o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y weinyddiaeth fewnol yn ogystal â chwrdd â gofynion y Safonau Iaith:

- Sicrhau bod gofynion y Gymraeg swyddi yn unol â'r disgrifiad sgiliau a nodir yn y swydd ddisgrifiadau. Gwneir asesiad ieithyddol o anghenion llafar ac ysgrifenedig pob swydd cyn hysbysebu. Cynhwysir y datganiad a ganlyn pan yn hysbysebu swyddi – "Mae sgiliau perthnasol yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd – gweler y Swydd Ddisgrifiad am y manylion perthnasol". Cydnabyddir y gallai dynodiad llafar y swydd fod yn wahanol i'r dynodiad ysgrifenedig. Gall rhai sefyllfaoedd eithriadol godi lle mae prinder staff gyda'r gofynion priodol yn golygu bod angen llacio'r gofynion ieithyddol Cymraeg hanfodol, e.e. gweithwyr cymdeithasol yn y maes plant.

- Yn yr achosion prin lle nad yw sgiliau'r unigolyn yn cwrdd â dynodiad iaith y swydd gosod amod cyflogaeth sy'n cynnwys targedau rhesymol a chyraeddadwy.

- Sicrhau y darperir cefnogaeth briodol, yn gorfforaethol ac o fewn y gwasanaethau, i unigolion gyrraedd y targedau.

- Sicrhau bod rheolwyr yn sefydlu diwylliant cadarnhaol sy'n parhau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yng ngweithgareddau dyddiol ac yn darparu cyfleoedd digonol i unigolion ymarfer eu Cymraeg ar lefel ffurfiol ac anffurfiol o fewn y gweithle.

- Cynnal rhaglen dreigl o weithio'n ddwys gyda gwasanaethau unigol (gweler 5. isod).

## 5. Gweithio'n ddwys gyda gwasanaethau unigol

Y bwriad yn y tymor byr yw cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar lafar drwy annog staff, boed yn siaradwyr rhugl, dysgwyr da neu'n ddysgwyr llai profiadol i siarad mwy o Gymraeg. Gellir defnyddio'r man gwaith a sefyllfaoedd anffurfiol i ymarfer. Anogir staff sy'n ddigon hyderus i anfon e-byst syml yn fewnol yn Gymraeg a rhoddir cefnogaeth i'r rheiny sy'n ddigon hyderus i ddrafftio adroddiadau'n Gymraeg.

Yn ogystal, rhoddir camau ymarferol mewn lle i ddarparu cefnogaeth ymarferol i staff gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg yn ysgrifenedig. Er enghraifft, mae Cysill/ CysGair a gwasanaeth prawf ddarllen yr Uned Gyfieithu ar gael iddynt wirio eu gwaith ysgrifenedig. Gall y gefnogaeth hon o sicrhau cywirdeb iaith fod yn aml yn ddigon o ysgogiad i godi hyder i ddrafftio mwy trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae amrediad o hyfforddiant hefyd ar gael i gefnogi ac ysgogi staff megis ymwybyddiaeth iaith, cyrsiau sgiliau a chyrsiau ar sut i gynnal a chadeirio cyfarfodydd trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd modd hefyd i adnabod pencampwyr iaith, o fewn y gwasanaethau unigol (boed yn siaradwyr rhugl neu'n ddysgwyr), a chyfleoedd anffurfiol i staff ymarfer eu sgiliau.

## 6. Y Gwasanaeth Tai

Ym mis Medi, 2016, detholwyd y gwasanaeth cyntaf i weithio'n ddwys gyda hwy, sef y gwasanaeth Tai. Isod ceir amlinelliad o'r fethodoleg a'r camau gweithredu a gymerwyd i sefydlu a chynnal y prosiect.

## 7. Sefydlu gwaelodlin o'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y Gwasanaeth Tai

Cychwynnwyd y broses o weithio gyda'r gwasanaeth Tai drwy sefydlu gwaelodlin o'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y gwasanaeth drwy gylchredeg holiadur defnydd iaith i bob aelod o staff ac yna dadansoddi'r canlyniadau. Roedd y canlyniadau fel a ganlyn:

| **Nifer staff o fewn y gwasanaeth – 127 o staff a'r canran dychweliadau yn 62%** |
|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 85% yn rhugl yn y Gymraeg | 76% yn sgwrsio'n Gymraeg yn rheolaidd efo cydweithwyr | 78% yn anfon e-byst yn bennaf yn Gymraeg/dwyieithog | 66% yn awyddus i ddefnyddio rhagor o Gymraeg |

## 8. Y Cynllun Gweithredu

Cytunwyd ar gynnwys cynllun gweithredu gyda Thîm Rheoli'r Gwasanaeth Tai ar gyfer gwireddu'r nod. Mae'r prif feysydd blaenoriaeth fel a ganlyn:

| Maes | Tasg | Cynnydd |
|---|---|---|
| Arweinyddiaeth | Adnabod Pencampwr Iaith o blith Tîm Rheoli'r gwasanaeth<br><br>Y Gymraeg yn eitem sefydlog ar agenda pob cyfarfod o'r Tîm Rheoli<br><br>Pennaeth Gwasanaeth yn cyfarfod yn fisol efo'r Rheolwr Polisi a Strategaeth/Swyddog Adnoddau Dynol i adolygu cynnydd ac adnabod unrhyw gefnogaeth bellach | Gweithredol<br><br>Gweithredol<br><br>Gweithredol |
| Cefnogaeth | Adnabod Pencampwr Iaith o fewn pob uned gwasanaeth | 8 ohonynt (2 ohonynt yn ddysgwyr)<br><br>Taflen tasgau wedi'i pharatoi ar eu cyfer<br><br>Nifer ohonynt wedi mynychu seminar ar gyfer pencampwyr ar 28/3/17 |
| Codi Ymwybyddiaeth | Cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth iaith i staff | 34 o staff wedi mynychu'r hyfforddiant<br><br>Darparu adnoddau gweledol i hyrwyddo'r Gymraeg |
| Cyfarfodydd | Cyfarfodydd Tîm Rheoli'r gwasanaeth i'w cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Gymraeg yn eitem sefydlog ar rhaglenni'r cyfarfodydd<br><br>Cyfarfodydd timau'r gwasanaeth i'w cynnal yn ddwyieithog | Gweithredol<br><br>50% o gyfarfodydd yn gyfrwng Cymraeg, 33% yn ddwyieithog a 17% |

| | | |
|---|---|---|
| | | yn uniaith Saesneg. Gweithio i gynyddu'r ganran o gyfarfodydd cyfwng Cymraeg/dwyieithog<br><br>Darparu cwrs cadeirio cyfarfodydd dwyieithog i staff ar 8-6-17 |
| Sgiliau Iaith | Cymharu dynodiad iaith swyddi yn erbyn sgiliau iaith deilyddion y swyddi | Darparu cefnogaeth datblygu sgiliau i staff perthnasol |
| Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar lafar | Adnabod cyfleoedd anffurfiol i staff gael y cyfle i ymarfer eu sgiliau'n Gymraeg | Pencampwyr iaith yn sefydlu anghenion staff a chyd-lynu gweithgareddau |
| Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn ysgrifenedig | Annog staff i anfon e-byst cyfrwng Cymraeg at gyd-weithwyr, contractwyr, isgontractwyr ac adeiladwyr<br><br>Annog staff sydd ddigon hyderus ac sydd gyda'r sgiliau i ddrafftio adroddiadau trwy gyfrwng y Gymraeg | Cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth am Cysill/CysGair<br><br>Basdata terminoleg Cymraeg yn y maes Tai ar gael i staff |

## 9. Cynaliadwyedd y Rhaglen Dreigl

Mae'r prosiect gyda'r Gwasanaeth Tai yn ennill momentwm ac mae'n addawol gweld bod y Pencampwyr Iaith yno bellach yn cychwyn perchnogi'r her. Maent o'u gwirfodd wedi cynhyrchu a chylchredeg holiadur a chynnal sesiwn i'w cydweithwyr er mwyn sefydlu anghenion defnydd iaith a'r gynhaliaeth sydd ei angen. Maes o law, y gobaith yw y gellir dwyn ar eu profiadau o beth sy'n gweithio'n dda a beth yw'r prif rwystrau er mwyn cynorthwyo'r gwasanaeth nesaf fydd yn derbyn cefnogaeth ddwys. Y gwasanaethau nesaf fydd yn derbyn y gefnogaeth hon ydi Gwarchod y Cyhoedd a Hamdden.

## 10. Monitro Cynnydd

Adroddir ar gynnydd yn erbyn y nod yn flynyddol trwy gyhoeddi adroddiad i'w gyflwyno i Bwyllgor Sgriwtini Corfforaethol y Cyngor Sir. Yn ogystal, darperir adroddiadau cynnydd yn rheoliad i'r Grŵp Tasg Iaith a'r Fforwm Iaith Strategol Sirol.

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaerth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 14 Tachwedd 2017 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Cynnydd: "Panel Sgriwtini – Adolygu Cynnydd Ysgolion" |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Diweddaru'r Pwyllgor ar Waith y Panel |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cynghorydd Gwilym Jones |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cynghorydd R Meirion Jones [Addysg] |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Delyth Molyneux |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Gwyneth Môn Hughes a Geraint Wyn Roberts<br>2908<br>**gwynethhughes@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau lleol:** | Phob Aelod |

**1 – Argymhelliad/ion**

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio nodi:

- Y cynnydd hyd yma efo gwaith y Panel Sgriwtini Adolygu Cynnydd Ysgolion
- Fod gan Panel Sgriwtini Blaen Rhaglen Waith mewn lle.
- Nid oes unrhyw fater i'w uchafu gan y Panel er sylw'r rhiant bwyllgor ar hyn o bryd.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall**

Mae Cynllun y Cyngor 2017-2022, gyda'r uchelgais i weithio a phobol Ynys Mon, cymunedau a'n phartneriad er mwyn sicrhau gwasanethau o safon uchel a fydd yn gwella ansawdd bywyd o bawb ar yr ynys. Un o'r tri amcan yn y Cynllun yw *" Creu'r amodau yn galluogi pawb i gyflawni ein potentsial"*. Mae'r gwaith y "Panel Sgriwtini – Adolygu Cynnydd Ysgolion", yn un ffyrdd o annog ysgolion i gyrraedd yr uchelgais a'r amcan.

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

- A yw'r Cadeirydd a'r Aelodau y Panel yn hapus sut mae'r Panel yn symud ymlaen gyda'i gwaith?
- Unrhyw awgrymiadau i gryfhau'r gwaith y Panel?
- Ydych chi'n fodlon gyda chyflymder gwaith y Panel hyd yma?
- Sut mae'r Panel yn nnog gwelliant yn canlyniadau yn Cyfnod Allweddoll 4?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

5.1 Bydd Aelodau'n ymwybodol bod 3 Panel Sgriwtini wedi eu sefydlu, sef:

- Panel Sgriwtini Cyllid ( adrodd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol)
- Panel Sgriwtini Gwella Gwasanaethau Plant ( adrodd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol)
- Panel Sgriwtini Adolygu Cynnydd Ysgolion ( adrodd i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio)

5.2 Mae Paneli bellach yn cyfarfod yn rheolaidd, a mae'r adroddiad yma yn crynhoi'r gwaith a wnaed gan y Panel Sgriwtini Adolygu Cynnydd Ysgolion.

5.3 Yn wreiddiol, sefydlwyd Panel Sgriwtini Adolygu Cynnydd Ysgolion ar 21 Tachwedd 2012 gan y Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden. Roedd yn codi o argymhellion a wnaed gan Estyn ar ansawdd gwasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc yn Ynys Môn. Mae'r Uwch Reolwr Safonau Ysgolion a Chynhwysiad yn rhoi arweiniad i'r Panel am ysgolion y gallai fod yn briodol eu gwahodd i ymddangos ger ei fron. Mae'r maen prawf a ddefnyddir i ddewis ysgolion yn seiliedig ar y fframwaith cenedlaethol ar gyfer categoreiddio ysgolion, perfformiad yr ysgol ac adroddiadau Estyn. Y nod yw cael cymysgedd da o ysgolion bach, canolig, mawr cynradd / uwchradd.

5.4 Gall y Panel wahodd ysgolion i ailymddangos o'i flaen os oes materion y bydd angen eu hailystyried yn ddiweddarach.

**GWAITH Y PANEL SGRIWTINI –ADOLYGU CYNNYDD YSGOLION ("y Panel")**

5.5 Mae'r Panel wedi cyfarfod saith gwaith ers Ionawr 2017, sef:
- 3 Mawrth, 2017
- 30 Mawrth, 2017
- 28 Gorffennaf, 2017
- 1 Medi, 2017

- 6 Hydref, 2017
- 27 Hydref, 2017
- 10 Tachwedd 2017

5.6 Ynglwm mae Blaen Rhaglen Gwaith y Panel **(ATODIAD 1).**

5.7 Bu i'r Panel ganolbwyntio ar y materion isod ers Ionawr 2017:

- Adolygu cynnydd dwy ysgol gynradd o ddalgylch Caergybi a gwirio ansawdd gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg drwy'r Siarter Iaith.
- Adolygu cynnydd ysgol gynradd oedd wedi bod ar oren am ddwy flynedd ond bellach yn symud i'r melyn. Adolygu cynnydd Ysgol Uwchradd yn yr un modd.
- Gyda dyfodiad aelodau newydd i'r Bwrdd yn dilyn etholiad lleol mis Mai. mabwysiadu cylch gorchwyl a chadarnhau trefniadau llywodraethiant clir ar gyfer y Panel newydd.
- Cynnal dau sesiwn o hyfforddiant dros yr haf oedd yn rhoi sylw manwl i adnabod:-
    - dangosyddion lefelau disgwyliedig ar draws diwedd pob Cyfnod Allweddol, cynradd ac Uwchradd.
    - Deall pwysigrwydd rôl Pennaeth / Arweinwyr i godi a chynnal safonau
    - Cyflwyno enghreifftiau o gwestiynau addas i herio
    - ymgyfarwyddo â gwaith a gofynion Estyn
    - Datblygu dealltwriaeth cychwynol o rôl partneriaeth rhwng GwE AALl a'r Ysgolion.
    - Trafod data
    - Rhoi rhaglen waith mewn lle fel sail ar gyfer gwaith y Panel dros y misoedd nesaf.

- Adolygu cynnydd tair ysgol Uwchradd er mwyn herio perfformiad CA4. Hefyd herio cynnydd un o'r ysgolion hyn yn erbyn tagedau o fewn eu cynllun gweithredu ol arolwg.

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb [cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Dim yn berthnasol |

| **7 – Oblygiadau Ariannol** |
|---|
| Dim yn berthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| **ATODIAD 1** - Blaen Rhaglen Waith |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| - |

**ATODIAD 1**
**PANEL ADOLYGU CYNNYDD YSGOLION – RHAGLEN WAITH /**
***SCHOOLS PROGREESS REVIEW PANEL – WORK PROGRAMME***

| **CYFARFOD /** ***MEETING*** | **DYDDIAD /** ***DATE*** | **PWNC /** ***SUBJECT*** | **ADRODDIAD I'R PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC AADFYWIO** | **ADRODDIAD I'R PWYLLGOR GWAITH /** ***REPORT TO EXECUTIVE*** |
|---|---|---|---|---|
| **GORFFENNAF → RHAGFYR, 2017** ***JULY → DECEMBER, 2017*** | | | | |
| **1** | **GORFFENNAF/** ***JULY*** 28/07/17 [10am – 12.30] | Cyflwyniadau Gan Aelodau a Swyddogion / Intoductions By Members and Officers | | |
| | | Pwrpas y Panel a'r Cylch Gorchwyl/ Purpose of the Panel and Terms of Reference | | |
| | | Trosolwg o Addysg ar Ynys Môn Ynghyd â Chyswllt Gyda'r Gwahanol Lefelau Disgwyliedig Ar Draws Diwedd Cyfnodau Allweddol / Overview of Education on the Isle of Anglesey Together with Expected Outcomes At Different key Stages | | |
| **2** | **MEDI / SEPTEMBER** 1/9/17 [10am – 12.30] | *Sesiwn Datblygu -Codi ymwybyddiaeth/ Development session-awareness raising*<br>• *Deall Rôl y Pennaeth / Understanding the Role of the Head Teacher*<br>• *Rôl GwE / Role of GwE*<br>• *Rôl Estyn / Role of Estyn* | | |
| | | Data Ysgolion / Schools Data | | |
| | | Cwestiynau Perthnasol / Relevant Questions | | |
| | | Dewis Select Schools to Invite to the Panel ysgolion i'w gwahodd i'r Panel / | | |

| **CYFARFOD / *MEETING*** | **DYDDIAD / *DATE*** | **PWNC / *SUBJECT*** | **ADRODDIAD I'R PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC AADFYWIO** | **ADRODDIAD I'R PWYLLGOR GWAITH / *REPORT TO EXECUTIVE*** |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **3** | **HYDREF / OCTOBER** 6/10/17 [2pm-4pm] | *Sesiwn Datblygu -Codi ymwybyddiaeth/ Development session-awareness raising* <br> • *Cyfarfad a Swyddogion Allweddol GwE ar Ynys Môn / Meeting with key GwE Officers on Anglesey (Sharon Vaughan a Meinir Huws)* | | |
| | | Cyfarfod hefo'r ymgynghorydd her (GwE) – Ysgol Uwchradd Gaergybi / Meeting with School Challenge Advisor ( GwE)- Holyhead Secondary School | | |
| | | Cyfarfod hefo'r Pennaeth a'r Cadeirydd Llywodraethwr yr Ysgol – Ysgol Uwchradd Gaergybi / *Meeting with the Head teacher and Chair of School Governors – Holyhead High School* | | |
| **4** | **HYFREF/ OCTOBER 27/10/17 [10am – 12.30pm]** | Cyfarfod hefo'r Pennaeth a'r Cadeirydd Llywodraethwr yr Ysgol –Ysgol David Hughes ( Porthaethwy) / *Meeting with the Head teacher and Chair of School Governors* –Ysgol David Hughes ( Menai Bridge) | **Adroddiad Cynnydd i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Afywio / Progress Report to the** | **Adroddiad Cynnydd i'r Pwyllgor Gwaith / Progress Report *Executive, 27/11/17*** |

| CYFARFOD / *MEETING* | DYDDIAD / *DATE* | PWNC / *SUBJECT* | ADRODDIAD I'R PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC AADFYWIO | ADRODDIAD I'R PWYLLGOR GWAITH / *REPORT TO EXECUTIVE* |
|---|---|---|---|---|
| | | Cyfarfod hefo'r Pennaeth a'r Cadeirydd Llywodraethwr yr Ysgol –Ysgol Bodedern/ *Meeting with the Head teacher and Chair of School Governors* –Ysgol Bodedern | **Partnership and Regeneration Scrutiny Committee, *14/11/17*** | |
| **5.** | **TACHWEDD / NOVEMBER 10/11/17** [11am -1.30pm | Cyfarfod hefo'r Pennaeth a'r Cadeirydd Llywodraethwr yr Ysgol –Ysgol Gynradd Pentraeth/ *Meeting with the Head teacher and Chair of School Governors* –Ysgol Pentraeth Primary school | | |
| | | Cyfarfod hefo'r Pennaeth a'r Cadeirydd Llywodraethwr yr Ysgol –Ysgol Gynradd Amlwch/ *Meeting with the Head teacher and Chair of School Governors* –Ysgol Amlwch Primary School | | |
| **6.** | **TACHWEDD / NOVEMBER 30/11/17** [2pm-4.30pm] | Cyfarfod hefo'r Pennaeth a'r Cadeirydd Llywodraethwr yr Ysgol –Ysgol Gynradd Cemaes/ *Meeting with the Head teacher and Chair of School Governors* –Cemaes Primary School | | |
| | | Cyfarfod hefo'r Pennaeth a'r Cadeirydd Llywodraethwr yr Ysgol –Ysgol Gynradd Bodffordd/ *Meeting with the Head teacher and Chair of School Governors* –Bodffordd Primary School | | |

| CYFARFOD / *MEETING* | DYDDIAD / *DATE* | PWNC / *SUBJECT* | ADRODDIAD I'R PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC AADFYWIO | ADRODDIAD I'R PWYLLGOR GWAITH / *REPORT TO EXECUTIVE* |
|---|---|---|---|---|
| **7.** | **RHAGFYR / DECEMBER 8/12/17** [11am -1.30pm | Cyfarfod hefo'r Pennaeth a'r Cadeirydd Llywodraethwr yr Ysgol –Ysgol Gynradd Borth/ *Meeting with the Head teacher and Chair of School Governors* –Borth Primary School | | |
| | | Cyfarfod hefo'r Pennaeth a'r Cadeirydd Llywodraethwr yr Ysgol –Ysgol Gynradd Santes Gwenfaen / *Meeting with the Head teacher and Chair of School Governors* – Santes Gwenfaen Primary School | | |
| **IONAWR → MAI 2018** *JANUARY → MAY , 2018* | | | | |
| **8.** | **IONAWR / JANUARY 12/1/2018 10:00-13:00** | Cyfarfod hefo'r Pennaeth a'r Cadeirydd Llywodraethwr yr Ysgol –Ysgol Syr Thomas Jones Amlwch/ *Meeting with the Head teacher and Chair of School Governors* – Sir Thomas Jones Amlwch | | |
| | | Cyfarfod hefo'r Pennaeth a'r Cadeirydd Llywodraethwr yr Ysgol –Ysgol Gynradd Kingsland/ *Meeting with the Head teacher and Chair of School Governors* –Kingsland Primary School | | |
| **9.** | **CHWEFROR / FEBRUARY 9/2/2018 10:00-13:00** | Cyfarfod hefo'r Pennaeth a'r Cadeirydd Llywodraethwr yr Ysgol –Ysgol Gynradd Y Fridd/ *Meeting with the Head teacher and Chair of School Governors* –Y Ffridd Primary School | **Adroddiad Cynnydd i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Afywio / Progress Report to the Partnership and** | **Adroddiad Cynnydd i'r Pwyllgor Gwaith / Progress Report *Executive,19/2/18*** |
| | | Cyfarfod hefo'r Pennaeth a'r Cadeirydd Llywodraethwr yr Ysgol –Ysgol Gynradd | | |

Tudalen 27

| CYFARFOD / *MEETING* | DYDDIAD / *DATE* | PWNC / *SUBJECT* | ADRODDIAD I'R PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC AADFYWIO | ADRODDIAD I'R PWYLLGOR GWAITH / *REPORT TO EXECUTIVE* |
|---|---|---|---|---|
| | | Henblas/ *Meeting with the Head teacher and Chair of School Governors* –Henblas Primary School | **Regeneration Scrutiny Committee, 6/2/*18*** | |
| **10.** | **MAWRTH / MARCH**<br><br>**16/03/18**<br><br>**10:00-13:00** | Cyfarfod hefo'r Pennaeth a'r Cadeirydd Llywodraethwr yr Ysgol –Ysgol Gynradd Y Tywyn/ *Meeting with the Head teacher and Chair of School Governors* –Y Tywyn Primary School | | |
| | | Cyfarfod hefo'r Pennaeth a'r Cadeirydd Llywodraethwr yr Ysgol –Ysgol Gynradd Santes Fair / *Meeting with the Head teacher and Chair of School Governors* –St Mary's Primary School | | |

| CYFARFOD / *MEETING* | DYDDIAD / *DATE* | PWNC / *SUBJECT* | ADRODDIAD I'R PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC AADFYWIO | ADRODDIAD I'R PWYLLGOR GWAITH / *REPORT TO EXECUTIVE* |
|---|---|---|---|---|
| **11.** | **EBRILL / APRIL 20/4/18 10:00-13:00** | Cyfarfod hefo'r Pennaeth a'r Cadeirydd Llywodraethwr yr Ysgol –Ysgol Caergeiliog/ *Meeting with the Head teacher and Chair of School Governors* –Caergeiliog Primary School. *Ail ymweld ysgol Uwchradd Caegybi / Re-visit Holyhead High School* | | |
| **12.** | **MAI / MAY 25/5/18 10:00-13:00** | Trefnu i gyfarfod a Ysgolion Bodffordd, Bodedern (Uwchradd), Bodedern, Pentraeth a Henblas schools / Arrange to meet Bodffordd, Bodedern (Secondary), Bodedern, Pentraeth a Henblas schools. | | |

This page is intentionally left blank

SGRIWTINI

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO 2017/2018

Cadeirydd: Cynghorydd Gwilym O Jones
Is-Gadeirydd: Cynghorydd Robert Llewelyn Jones

Y tabl isod yw Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio o Fai 2017 at Fai 2018. Adroddir ar y Rhaglen Waith i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini i bwrpas adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu i ohirio/tynnu eitemau yn ôl.

Cyswllt: Geraint Wyn Roberts (Swyddog Sgriwtini)
Ffôn: 01248 752039
E-bost: gwrce@ynysmon.gov.uk

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad / Amser Cychwyn |
|---|---|---|---|
| **31 Mai 2017** | Ethol Cadeirydd | Ethol Cadeirydd | Ystafell Pwyllgor 1/ 3.30yh |
| | Ethol Is Gadeirydd | Ethol Is Gadeirydd | |
| **Mehefin, 2017** | | | |
| **27 Mehefin 2017** | Adroddiad Blynyddol Cymunedau yn Gyntaf | Monitro perfformiad | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh |
| | Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid | Gwybodaeth/ monitro perfformiad | |
| | Aelodaeth Paneli a Byrddau | Enwebu Aelodaeth | |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | |
| **Hydref, 2017** | | | |
| **9 Hydref 2017** | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol | Monitro perfformiad | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Datblygu Cynllun Llesiant Môn a Gwynedd) | Monitro perfformiad/datblygu polisi | |
| | Adroddiad Blynyddol Cyflwyniadau yn erbyn Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid | Monitro perfformiad | |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | |
| **Tachwedd, 2017** | | | |
| **14Tachwedd 2017** | Cynllun Llesiant Drafft - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd | Datblygu Polisi | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh |
| | Trawsnewid Gwasanaethau Diwylliant | Sgriwtini cyn penderfyniad | |
| | Adroddiad ar y Gymraeg o fewn y Weinyddiaeth Fewnol | Monitro perfformiad | |
| | Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | Monitro perfformiad | |
| | | | |
| **29 Tachwedd 2017** | Canllaw Cynllunio Atodol –Iaith Gymraeg | Datblygu Polisi | Ystafell Pwyllgor 1 / 10yb |
| **Chwefror, 2018** | | | |
| **6 Chwefror 2018** | Adroddiad Blynyddol – Perfformiad Ysgolion Môn2016/2017 | Monitro perfformiad | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh |
| | GwE- Adroddiad Blynyddol 2016/2017 (i'w gadarnhau) | Monitro perfformiad | |

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad / Amser Cychwyn |
|---|---|---|---|
| | Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | Monitro perfformiad | |
| | **Ebrill, 2018** | | |
| **10 Ebrill 2018** | Arbrawf Gorfodaeth Amgylcheddol (baw ci)- Diweddariad (i'w gadarnhau) | Monitro perfformiad | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh |
| | Cyd Bwyllgor Angenion Addysgol Ychwanegol a Chynwysiad –Gwynedd a Môn | Monitro perfformiad | |
| | Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid ( iw gadarnhau ) | Datblygu Polisi | |
| | Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | Monitro perfformiad | |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | |
| | **Mai 2018, Ymlaen** | | |
| Cyn Mehefin 2018 | Cyd Bwyllgor Angenion Addysgol Ychwanegol a Chynwysiad ( phob 6 mis) | Monitro perfformiad | |
| Medi 2018 | Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd | Monitro perfformiad | |
| I'w gadarnhau | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | Monitro perfformiad | |
| I'w gadarnhau | Cymunedau Gyntaf | Monitro perfformiad | |
| I'w gadarnhau | Diogelwch Cymunedol | Monitro perfformiad | |
| I'w gadarnhau | Cyd weithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Monitro perfformiad | |
| I'w gadarnhau | Blaen Rhaglen Gwaith | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol | |

This page is intentionally left blank

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

***(Teitl yr Adroddiad: Trawsnewid y Gwasanaeth Diwylliant- Cynnydd ynghylch Oriel Môn / Title of Report: Transformation of Cultural Service- Progress regarding Oriel Môn)***

| | |
|---|---|
| Paragraff(au) 14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraph(s) 14 Schedule 12A Local Government Act 1972<br>[un neu fwy o/one or more of 12,13,14,15,16,17,18,18A,18B,18C] | |
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / There is a public interest in disclosure as:- | Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>Gwybodaeth yn ymwneud â materion busnes neu ariannol unrhyw unigolyn penodol (Gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal y wybodaeth) (para 14)<br><br>*Information relating to the financial or business affairs of any particular person (including the authority holding that information) ( para 14)*<br><br>*as there is sensitive in relation to the café lease franchise at Oriel Môn* |
| **Argymhelliad** - Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.<br>**Recommendation** - The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information. | |

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank